

DISGRIFIO

MATH O FFURF – STORI, NOFEL, DISGRIFIAD O OLYGFA, PORTREAD O BERSON A RHAN O DDYDDIADUR NEU YMSON

CIP AR DESTUN

Disgrifiad o olygfa

'I Bler Aeth Haul y Bore?'
Eirug Wyn. Y Lolfa

Roedd Chico'n teimlo'r bywyd yn araf ddiferu ohono. Gwyddai ei fod wedi colli llawer o waed a theimlai'n hollol wan. Ceisiodd gadw'n llonydd, ond roedd o eisoes wedi ffroeni'r bleiddiaid, ac wedi'u clywed yn nesáu ato. Doedd dim dwywaith nad arogl y gwaed oedd wedi'u denu. Roedd y gwaed yn diferu o'r clwyfau'n ei bennau gliniau, ac o'i geg.

Ceisiodd agor ei lygaid, ond roedd y rheiny'n llawn gwaed hefyd. Wedi agor a chau ei lygaid yn ffyrnig am eiliad neu ddwy gallai weld rhai o'r bleiddiaid yn dynesu. Yn araf bach, roedden nhw'n dod. Ffroeni, yna dod ato mewn cylch. Roedden nhw'n arogl ei waed. Yn synhwyro'i angau. Yn dod yn fwy powld. Unrhyw funud... unrhyw eiliad, roedd o'n disgwyl clywed brath y dannedd miniog yn rhwygo cnawd ei wddf. Roedden nhw'n nesáu. A'u cegau'n glafoerio.

Yna'n sydyn, dyna sŵn fel chwip. Syrthiodd un o'r bleiddiaid ar lawr â saeth trwy'i wddf. Neidiodd dau neu dri o'r lleill arno'n syth a'i larpio. Sŵn fel chwip yr eildro, ac roedd ail flaidd yn gwingo'n belen ar lawr â saeth trwy'i wddf yntau. Mewn chwinciad roedd y lleill wedi'i heglu hi.

Roedd Chico'n teimlo'r bywyd yn araf ddiferu ohono. Gwyddai ei fod wedi colli llawer o waed a theimlai'n hollol wan. Ceisiodd gadw'n llonydd, ond roedd o eisoes wedi ffroeni'r bleiddiaid, ac wedi'u clywed yn nesáu ato. Doedd dim dwywaith nad arogl y gwaed oedd wedi'u denu. Roedd y gwaed yn diferu o'r clwyfau'n ei bennau gliniau, ac o'i geg.

'I Bler Aeth Haul y Bore?'
Eirug Wyn
Y Lolfa

Portread o berson

'DIM'

Dafydd Chilton. Y Lolfa

Agoriad

Roedd yn ddyn cefnsyth yn ei dridegau hwyr. Eisteddai'n sgwâr ar gadair galed wrth fwrdd mawr y gegin lle'r oedd papurau newydd. Gorweddai ei ddwylo brown â'u cledrau ar i lawr o bobtu'r dalennau dieithr, heb eu cyffwrdd. Ond ar y papur oedd ei sylw.

Symudai ei lygaid yn araf ac yn ofalus ar hyd rhesi o luniau pen-ac-ysgwyddau a argraffwyd o un ochr y dudalen ddwbl lwyd i'r llall. Oedai ei olwg am eiliadau ar bob llun. Roedd yn astudio'r wynebau, yn dwyn i gof yr enwau. Ac yn darllen y broliant, byr, coffadwriaethol, o dan bob un.

Gafaelodd yn ochrau'r gadair a'i symud hi'n ôl, heb grafu'r llawr teils coch, glân, codi ar ei draed a cherdded draw at y sinc. Rhwng ei aelïau roedd rhigolau dwys duon ac roedd ei enau amlwg wedi eu brathu'n dynn.

Estynnodd y tegell a'i ddal dan y tap a throi dŵr iddo. Taniodd y nwy yn un o'r pedair coron ar ben y popty a rhoi'r tegell i dwymo. A throdd yn ôl at y sinc. Pwysodd arno, a chael ei ymyl yn oer dan ei ddwylo.

Symudai ei lygaid yn araf ac yn ofalus ar hyd rhesi o luniau pen-ac-ysgwyddau a argraffwyd o un ochr y dudalen ddwbl lwyd i'r llall. Oedai ei olwg am eiliadau ar bob llun. Roedd yn astudio'r wynebau, yn dwyn i gof yr enwau. Ac yn darllen y broliant, byr, coffadwriaethol, o dan bob un.

'DIM'
Dafydd Chilton
Y Lolfa

www.ylolfaf.com



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government